# Nodiadau ar Y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol

**Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.**

Os ydych chi'n anghytuno gyda phenderfyniad a wnaed gan eich cyflogwr neu gan Gronfa Bensiynau Clwyd sy'n ymwneud â'ch buddion gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae proses cwynion dau gam ar waith o'r enw'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol.

Gallwch wneud cwyn o dan y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol os ydych chi'n:

- **Ddarpar Aelod**, sy'n ystyried ymuno â'r cynllun;
- **Aelod Gweithredol**, sy'n cyfrannu at y cynllun ar hyn o bryd;
- **Aelod Gohiriedig**, sydd wedi rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn, ond bod eich buddion yn aros yng Nghronfa Bensiynau Clwyd; neu os ydych chi'n;
- **Aelod Bensiynwr**, sy'n derbyn buddion pensiwn gan Gronfa Bensiynau Clwyd ar hyn o bryd.

Pan fyddwch yn gwneud eich cwyn, gallwch ddewis rhywun arall i'ch cynrychioli chi: er enghraifft, ffrind, perthynas, cyfreithiwr neu gynrychiolydd undeb.

## Cam 1: Cwyn Ffurfiol

P'un a yw eich cwyn yn erbyn eich cyflogwr neu yn erbyn Cronfa Bensiynau Clwyd, dylech gwyno yn ysgrifenedig gan ddefnyddio ffurflen gais Cam 1. Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich ffurflen gais Cam 1 o fewn **chwe mis** o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i chi am y penderfyniad, y cam gweithredu neu'r diffyg gweithredu yr ydych chi'n cwyno amdano. Bydd eich achos yn cael ei adolygu gan ddefnyddio rheolau'r cynllun ac unrhyw gyfraith berthnasol arall.

Llenwch ffurflen gais Cam 1 a'i dychwelyd i naill ai:

- Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF; neu
- **pensiynau@siryfflint.gov.uk**

Dylech dderbyn ymateb ysgrifenedig o fewn **deufis** ar ôl i ni dderbyn eich apêl. Bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau i chi yn ysgrifenedig, neu byddwn yn egluro'r rhesymau am yr oedi wrth wneud penderfyniad terfynol.

## Cam 2: Apêl Bellach

Os nad ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad Cam 1, mae gennych **chwe mis** i apelio i ddyfarnwr Cam 2 a benodwyd gan Gronfa Bensiynau Clwyd. Mae'n rhaid i chi wneud eich apêl Cam 2 yn ysgrifenedig a chynnwys y penderfyniad Cam 1.

Gallwch hefyd fynd yn syth i Gam 2 os:

- Ydych chi wedi bod trwy Gam 1 a heb gael ymateb o fewn **tri mis** o wneud eich apêl; neu os
- Ydych chi wedi bod trwy Gam 1 a heb dderbyn penderfyniad o fewn **un mis** o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i chi y byddech chi'n ei dderbyn.

Dylai'r dyfarnwr Cam 2 ymateb i chi o fewn **deufis** o dderbyn eich cwyn. Ar gyfer yr holl apeliadau Cam 2, llenwch ffurflen gais Cam 2 a'i ddychwelyd i naill ai:

- Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF; neu
- **pensiynau@siryfflint.gov.uk**

### Helpwr Arian

Mae'r Helpwr Arian ar gael ar unrhyw adeg i'ch helpu.

Gallwch naill ai gysylltu ag ymgynghorydd Helpwr Arian lleol trwy eich gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, neu cysylltwch â nhw drwy ddefnyddio:

Ffôn: **0800 011 3797**
Gwefan: **www.moneyhelper.org.uk/cy**

### Yr Ombwdsmon Pensiynau (TPO)

Gall yr Ombwdsmon Pensiynau ymchwilio i unrhyw fath o anghytundeb ynglŷn â'ch pensiwn cyhyd â bod llai na thair blynedd wedi mynd heibio ar ôl i'r anghytundeb gwreiddiol godi. Fel arfer mae'n rhaid i gynlluniau Pensiwn ac aelodau dderbyn penderfyniad yr Ombwdsmon oni bai ei fod yn cael ei wrthdroi gan y llys. Fel arfer bydd swyddfa'r Ombwdsmon Pensiynau yn disgwyl i chi fod wedi:

- Cael penderfyniadau Cam 1 a Cham 2 y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; a'ch bod wedi
- Gofyn am gymorth gan yr Helpwr Arian.

Mae gennych yr hawl i gyflwyno eich cwyn i'r Ombwdsmon Pensiynau yn rhad ac am ddim.

Manylion cyswllt yr Ombwdsmon Pensiynau yw:

Ffôn: **0800 917 4487**
Gwefan: **www.pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg**
Cyfeiriad: 10 South Colonnade, Canary Wharf London, E14 4PU

### Y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR)

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn gorff gwarchod pensiynau sy'n sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cynnal yn iawn ac mae'n diogelu aelodau rhag twyll. Gall unrhyw un sy'n poeni am gynllun roi gwybod amdano i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Manylion y Rheoleiddiwr yw:

Ffôn: **0345 6000 707**
Gwefan: **www.thepensionsregulator.gov.uk/cy**
Cyfeiriad: Customer Support, The Pensions Regulator, Telecom House, 125-135 Preston Road, Brighton, BN1 6AF

# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
# Ffurflen gais Cam 1: Y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol

**(I'w llenwi gan yr Aelod neu Gynrychiolydd Personol)**

**Manylion Aelod:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | | |
| **Rhif YG:** | | **Dyddiad geni:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | **Rhif Ffôn:** | |
| **Cyflogwr:** | | **Rhif Cyflog:** | |
| **Dewis Iaith:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis) | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg** | ☐ | **Saesneg** | ☐ | **Dwyieithog** | ☐ |

**Dewis o ran Cyfathrebu:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis) **(Dewiswch UN opsiwn yn unig):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Electronig**<br>*Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i ddefnyddio'r Hunanwasanaeth Aelodau i dderbyn gohebiaeth yn electronig: **mss.clwydpensionfund.org.uk** | ☐ | **Papur** | ☐ |

**Cwblhewch isod os ydych yn Cynrychioli'r Aelod:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw Llawn:** | | | |
| **Perthynas i'r Aelod:** | | | |
| **Cyfeiriad ar gyfer Gohebiaeth:** | | | |
| | | **Cod post:** | |

**Datganiad Cais:**

Rhowch ddatganiad yn amlinellu'r anghytundeb, gan gynnwys cymaint o ffeithiau â phosibl yn egluro pam eich bod chi'n anghytuno. Dylech ddefnyddio tudalen ychwanegol os oes angen rhagor o le arnoch. Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi atom, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol.

| |
|---|
| |

**Datganiad:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod Aelod:** | | **Dyddiad:** | |
| **Llofnod Cynrychiolydd:** (os yw hyn yn berthnasol) | | **Dyddiad:** | |

**Dylid dychwelyd y ffurflen hon wedi ei chwblhau at Gronfa Bensiynau Clwyd drwy un o'r dulliau canlynol:**

Uwchlwytho'r ffurflenni drwy 'Uwchlwytho Dogfen' ar Hunanwasanaeth Aelodau

**pensiynau@siryfflint.gov.uk**

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF